Cenn@d

HYDREF 6 2021 — YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* — RHIF 32

# Urddo Llywydd Newydd a Hau Hadau Gobaith –
## Pigion o Gymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru



### Llywydd Newydd

Yn ystod y Gymanfa Gyffredinol trosglwyddwyd y Llywyddiaeth gan y Parch Marcus Wyn Robinson i'r Parch Evan Morgan, Salem, Caerdydd.

Bu'r Parch Marcus Robinson yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol am dymor estynedig o ddwy flynedd a hynny oherwydd effaith Covid-19 ar fywyd byd ac eglwys, fel ei gilydd. Roedd 'Digon i ti fy ngras i' – y thema a ddewisodd ar gyfer tymor ei lywyddiaeth – yn air yn ei amser.

Fel pob Llywydd arall, cafodd y Parch Evan Morgan gyfle i ddewis thema ar gyfer blwyddyn ei lywyddiaeth. A'r thema a ddewiswyd ganddo yw: 'Pa sawl torth sydd gennych? Ewch i edrych.'

Ac wrth i ni gefnu ar effeithiau Covid-19 ac wynebu hinsawdd a thirwedd ysbrydol newydd, bydd yr alwad a'r gorchymyn sydd yng ngeiriau Iesu a ddewiswyd ganddo yn sicr o fod yn amserol.

Cynhelir Encil y Llywydd yn Nhrefeca yn ystod yr hydref. Bydd manylion llawn i'w gweld ar dudalennau *Cenn@d* yn fuan.

Gweddïwn am iechyd a doethineb i'r Parch Evan Morgan yn ystod blwyddyn ei lywyddiaeth.

*RWJ*

### Hadau Gobaith

Bob pum mlynedd bydd aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru'n cyfrannu at apêl Cymorth Cristnogol. 'Hadau Gobaith' yw'r enw ar Apêl Cymorth Cristnogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar gyfer 2022.

Cafwyd cyfle yn y Gymanfa Gyffredinol yng Nghaernarfon i lansio Hadau Gobaith. Arweiniwyd y sesiwn gan Cheryl Williams, cydlynydd yr apêl, ar ran EBC. Cafwyd cyfraniadau pellach gan Mari McNeill, Pennaeth Tîm Cymorth Cristnogol yng Nghymru, a chan Dyfed Wyn Roberts, Swyddog Cyfathrebu'r tîm.

Bydd dwy wlad, sef Kenya a Haiti, yn cael sylw neilltuol drwy'r apêl. Ond realiti ac effaith hirdymor her newid hinsawdd fydd ffocws yr apêl, yn neilltuol yr heriau sy'n wynebu rhai o wledydd tlotaf y byd. Rydym yn anelu at godi oddeutu £250,000 i'r apêl – swm sy'n cyfateb i oddeutu £15 yr aelod.




O'r chwith i'r dde: Dyfed Wyn Roberts, Mari McNeill, Nan Wyn Powell-Davies, Marcus Robinson, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, Cheryl Williams, a Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Bydd mwy o wybodaeth ac adnoddau'n cael eu paratoi. Cofiwch gadw llygad ar wefan EBC wrth i ni nesáu at ddechrau'r apêl go iawn!

A chofiwch hefyd rannu llun a phwt o newyddion am weithgarwch eich capeli o blaid yr apêl.

Clowyd y sesiwn mewn gweddi gan y Parch Nan Wyn Powell-Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru.

Llongyfarchwn Nan hefyd ar ei hetholiad yn ddarpar Lywydd i'r Gymanfa. Bydd yn dechrau ar ei llywyddiaeth yn 2022.

*RWJ*

**Plethu Lleisiau Cymru a Bryniau Casia** Tudalen 3

**Sylw o'r Seidin** *Hatch ... Match ... and Despatch?* Tudalen 4

**Galwad i Ymestyn Allan yn Llundain** Tudalen 5

# Pigion o'r Gymanfa Gyffredinol

## GOLUD: trysori ffydd a bywyd y rhai sy'n byw gyda dementia

*Yn ystod Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gynhaliwyd 20–21 Medi 2021 yn Seilo, Caernarfon, ac yn rhithiol drwy Zoom, lansiwyd cynllun newydd gan chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

Mae dementia yn fater iechyd cyhoeddus o bwys yng Nghymru. Credir bod tua 850,000 o bobl yn byw gyda dementia yn y Deyrnas Unedig. Eleni, bydd 225,000 yn datblygu dementia – dyna un person bob 3 munud. Mae'n debygol fod y rhan fwyaf ohonom yn adnabod rhywun o fewn ein cylch teuluol, ffrindiau neu ein cymuned sy'n byw gyda dementia.

Mae'r term dementia yn cynnwys ystod eang o symptomau, ac mae'n effeithio ar bobl mewn ffyrdd amrywiol. Yn ogystal â'r broblem o fethu cofio, weithiau ceir anhawster i weithio pethau allan ac i ddilyn sgwrs. Gall llawer o dasgau bob dydd hefyd fod yn fwy anodd.

Bwriad GOLUD, wrth gydweithio ag eglwysi, yw cefnogi bywyd ysbrydol unigolion trwy'r cyfnod o fyw gyda dementia, fel eu bod yn medru dal gafael ar y pethau sy'n werthfawr i fywyd y Cristion – darllen y Beibl, addoli, gweddïo a pherthyn i gymuned yr eglwys. Darperir adnoddau pwrpasol, megis cryno ddisgiau gydag emynau cyfarwydd a deunydd ag adnodau Beiblaidd calonogol.

Byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth am ddementia drwy gynnig sesiynau Ffrindiau Dementia a Pencampwyr Dementia (drwy'r Gymdeithas Alzheimer). Elfen arall o'r rhaglen dair blynedd fydd rhannu canllawiau ac arferion da ar sut i hybu amgylchedd dementia-gefnogol o fewn cymuned yr eglwys. Bydd y canllawiau'n cynnwys syniadau am oedfaon addas, sut i gyfathrebu'n effeithiol, a pha fath o gefnogaeth fugeiliol sy'n addas

Rhaglen GOLUD Scheme
Trysori Ffydd a Bywyd | Treasuring Faith and Life
Byw gyda | Living with
DEMENTIA

Cynigir gwybodaeth am weithgareddau cefnogol ac ymarferol sy'n hyrwyddo lles y rhai sy'n byw â dementia a'u gofalwyr, o fewn cymuned leol y capel, er enghraifft caffi neu ardd gof. Byddwn hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at asiantaethau a mudiadau sy'n cynnig cyngor arbenigol.

Bydd mwy o wybodaeth ar gael dros y misoedd nesaf ar wefan EBC a thudalen gweplyfr GOLUDdementia wrth i ni ddatblygu adnoddau a sesiynau rhannu gwybodaeth.



Yn ei lyfr *Living with Alzheimer's – a love story*, mae Robin Thomson yn ysgrifennu: 'Fel pobl sydd wedi eu creu gan Dduw, fe'n cedwir yn ei gof. Nid yw Duw yn gadael i ni fynd ac felly rydym yn parhau i fodoli, hyd yn oed pan fyddwn ni ein hunain wedi anghofio popeth, gan gynnwys Duw!'

Mae'r geiriau yma'n adlewyrchu geiriau'r apostol Paul yn Rhufeiniaid 8:38,39 ac yn ein hatgoffa o un o'r trysorau mwyaf sydd gan y Cristion, sef y sicrwydd bod plant Dduw yn ddiogel yn ei ofal ef.

Ariennir GOLUD gan CWM ac arweinir y rhaglen gan Is-bwyllgor y Chwiorydd; gweler gwefan EBC: https://www.ebcpcw.cymru/cy/golud/

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Carys: carys.davies@ebcpcw.cymru neu Sarah: sarah.morris@ebcpcw.cymru

*Sarah Morris*


## 'Un o gyhoeddiadau pwysig 2021'


**Cyfrol arloesol, arbennig o hardd, wedi'i rhifo clawr caled, 231 tudalen, 104 o luniau**

Cyfrol yn diolch o galon i bob meddyg
a holl weithwyr y Gwasanaeth Iechyd,
ac i bawb sy'n rhannu eu cariad a'u gofal dros eraill

Nid bomiau i ladd,
Ond iechyd i'r claf.
(Pryderi Llwyd Jones)

Unrhyw elw i Ofal Dydd Waengoleugoed, ger Llanelwy,
a Stafell Fyw, Caerdydd

**Cyhoeddiadau'r Gair; pris: £15**




# Plethu Lleisiau Cymru a Bryniau Casia – CD newydd gan Gareth Bonello ar y cyd ag artistiaid o gymuned Khasi Gogledd-Ddwyrain India

Bu gen i ddiddordeb mawr yng nghenhadaeth dramor y cyfundebau Cymreig erioed. Roedd fy nhad, y Parchedig Huw Jones, yn flaenllaw yn yr awydd i beidio â gorllewineiddio brodorion meysydd cenhadol y Presbyteriaid. Yn ail, a minnau yn fy arddegau, roedd Coleg y Bala ar y pryd yn storfa i ddelwau *voodoo* a ddeilliodd o ryw faes cenhadol neu'i gilydd, a'r genhades Gwen Rees Roberts yn byw yno yn y 70au ac yn rhannu'i phrofiadau hefo fi. Yn olaf, roedd gen i gymaint o ddiddordeb fel mod i wedi dechrau ymchwilio i ddylanwad (anffafriol) cenhadon ar ddiwylliant brodorol y meysydd cenhadol mewn sawl gwlad.

Yn anffodus, daeth Robert Mugabe i lywodraethu Zimbabwe yn 80au'r ganrif ddiwethaf. Roedd archif fawr llwythau brodorol Affrica yn Harare ar y pryd ac roedd hi'n beryglus mentro yno. Er bod yna agwedd anffodus o ryw sêl i ddiwyllio brodorion wedi bod ynghlwm wrth genhadaeth rhai yn y gorffennol, o leiaf mae yna dystiolaeth fod y Cymry, efallai oherwydd eu statws hwythau, wedi bod yn fwy gofalus wrth gyflwyno'u neges yn y maes cenhadol ym Mryniau Casia, India. Bu bron i'r cenhadon fynd i ddyfroedd dyfnion, fodd bynnag, gan fod mudiad gwarchod traddodiadau Khasi, Seng Khasi, wedi'i sefydlu ym mhentref Smit ym Mryniau Casia yn 1899, fel adwaith i'r modd y bu i Gristnogaeth ac arferion Gorllewinol gael eu cyflwyno mewn ffordd ansensitif ar y pryd.

Gwyddwn fod y cerddor Gareth Bonello, un y mae gen i edmygedd o'i waith, wedi bod yn India a'r prosiect Khasi–Cymru wedi deillio o'i breswyliadau yn Shillong, prifddinas talaith Meghalaya. Cyn hynny, roedd ei waith yn China, a'i albwm *Y Bardd Anfarwol* wedi cael derbyniad gwresog. Drachefn yn India, bu Gareth yn gweithio ochr yn ochr â nifer o arbenigwyr yn eu meysydd, a deilliodd yr albwm *Sai-thaiñ ki Sur* (Plethu Lleisiau) o'i gyfnod yno.

Er bod yr albwm yn ddigon arbrofol o ran yr iaith gerddorol a'i gynhyrchiad, mae rhan bwysig o'r deunydd yn deillio o gysylltiad Cymru â'r maes cenhadol. Dichon fod y cysylltiad hwn yn ddieithr i'r byd cerddorol byd-eang, ond mae'r Cymry, yn enwedig




y to hŷn 'capelaidd' yn fwy cyfarwydd â'r cysyniad. Mae'r albwm yn medru eistedd yn daclus ar ddwy stôl, heb syrthio o gwbwl rhwng y ddwy. Mae'n medru boddhau clustiau'r cerddorion 'global' ond hefyd yn dod â'r dinc yna o Gymreictod i glustiau Cymry fel fi sydd wedi tyfu i fyny'n clywed corau afieithus o'r ardal yn canu emynau Cymreig. Er enghraifft, mae'r trac ar yr albwm 'Wel, Bachgen Ifanc Ydwyf' yn rhannu'r gerddoriaeth â'r emyn-dôn 'Bryniau Casia'. Mae honno'n aml yn cael ei hadnabod fel y dôn ar eiriau'r emyn 'Y Gŵr wrth Ffynnon Jacob'. Ond mae'r organ, a fyddai, mae'n debyg, wedi cyfeilio i'r emyn, wedi'i disodli gan offeryn y *Duitara*, math o gitâr 4 tant a wnaed i Gareth gan grefftwr lleol yn un o'r marchnadoedd o gwmpas Shillong. Clywir sawl offeryn taro lleol ar y trac hwn hefyd, yn rhoi blas mwy dwyreiniol ar y gân werin Gymreig.

Gan mai'r uchod oedd y trac cyntaf i mi wrando arno, roedd gweddill yr albwm yn argoeli'n brofiad cyffrous. Mae'r emyn-dôn 'Bryniau Cassia' y cyfeiriwyd ati uchod yn ymddangos ar drac arall yn dwyn yr un enw. Gan fod hon yn cael ei chofnodi fel 'Hen Alaw' ac yn ymddangos yn *Y Salmydd*, casgliad o emynau a gyhoeddwyd dan olygyddiaeth D. Emlyn Evans ac eraill yn 1892, cyfyd cwestiwn difyr p'un ddaeth gyntaf: y gân werin neu'r emyn-dôn? Gan fod y maes cenhadol yn yr ardal hon gan y Methodistiaid Calfinaidd yn cael ei gofnodi rhwng tua 1841 ac 1969, mae'n bur debyg mai'r gân werin Gymreig a gafodd ei hallforio yno, gan gofio ar yr un pryd fod nifer o emyn-donau'r cyfnod yn deillio o ffynonellau cynhenid cynharach.

Mae'r trac 'Pererin Wyf' yn cynnwys alaw hyfryd, leddf o eiddo Gareth Bonello a 'Cwyn yr Afon' yn debycach i waith cynharach Gareth ar ei ddau albwm *Y Bardd Anfarwol* a *Ruins / Adfeilion*. Mae hefyd wedi cydweithio â cherddorion traddodiadol o'r ardal sy'n dod â'u harbenigedd eu hunain i'r gymysgedd. Clywir yr offerynnau *Muiñ* a *Tangmuri* (offerynnau chwyth traddodiadol) ar y trac byw 'Pahambir', a chynhwysir dau drac byw arall hefyd ar yr albwm, yn gyforiog o flas yr ardal. Yn wir, clywir yr adar uwchben hyd yn oed ar y trac byw 'Bryniau Cassia'.

Fel un sydd wedi cyfansoddi caneuon dan ddylanwad beirdd o'r blaen, mae Gareth Bonello hefyd wedi cyfansoddi cân o'r enw 'Soso & Waldo', enwau beirdd o Khasi a Chymru, a chlywir adleisiau o'r gerdd 'Cofio' gan Waldo yn y gân hyfryd hon. Mae'r alaw yn dwyn i gof rai brawddegau o'r gân werin Gymreig 'Cariad Cywir', ac yn yr un modd gymalau o 'Y Deryn Du a'i Blufyn Sidan' yn y gân 'I Shakyllia'. Cydweithrediad arall yw'r trac 'Hediad Ka Likai', lle clywir trac offerynnol hyfryd gan Gareth ar y gitâr a chyfraniad ar offeryn chwyth arall, y *Besli*. Mae'r gân 'To the Men with Hate Speech on their Lips' yn fwy arbrofol yn gerddorol gan ddefnyddio'r gair llafar ac yn cyfeirio at briodas orfodol ymhlith merched yr ardal. I gloi'r albwm, clywir y gân 'Alawon Cenhaty', sy'n awgrymu fod yna nifer o alawon dawns wedi'u hallforio a'u clywed yn y maes cenhadol.

I rai sy'n gyfarwydd â cherddoriaeth India, efallai fod absenoldeb offerynnau fel y *sitar* neu'r *sambura* yn peri dryswch. Mae hyn yn fwriadol gan mai offerynnau lleol i'r ardal hon yn benodol sy'n cael eu chwarae ar yr albwm. Efallai mai dwyn ynghyd draddodiadau lleiafrifol Khasi a Chymru yw cryfder yr albwm hyfryd hon ac mae'r elfen o osgoi gor-gynhyrchu technegol hefyd yn cyfrannu at ei swyn a'i symlrwydd. Mae'n gofnod hanesyddol yn cyfeirio at gyfnod y genhadaeth dramor a'r cysylltiad Khasi–Cymru ond mae hefyd yn brofiad cerddorol gwerth chweil ddylai apelio'n llawer ehangach na hynny.

*Sioned Webb*
*Llandderfel*

**Sai-thaiñ ki Sur (the Weaving of Voices/ Plethu Lleisiau) gan Gareth Bonello. CD, Naxos World, £10.00;** [https://thegentlegood.com/cy/product/sai-thain-ki-sur-the-weaving-of-voices-cd](https://thegentlegood.com/cy/product/sai-thain-ki-sur-the-weaving-of-voices-cd)

# Sylw o'r Seidin

## *Hatch ... Match ... and Despatch?*

Helô ffrindiau, unwaith eto. Wyddoch chi – aeth blwyddyn heibio ers imi gychwyn ysgrifennu rhyw bwt yn fisol i'r *Goleuad* ac yna i *Cenn@d*. Mae'n siŵr fod amryw ohonoch yn gobeithio mai dyma *swan song* yr hen foi 'Sylw o'r Seidin' yma. Ond na, drwy garedigrwydd y golygyddion, fe barhâf i'ch mwydro chi ar amryw o faterion, os ca' i!




Be dach chi'n feddwl o'r teitl? Beth yw tarddiad y teitl, meddech chi, ym meddwl awdur y pill hwn heddiw? Wel, rai blynyddoedd yn ôl, fe sylwais i ar 'trend' newydd yn hanes cyflawni'r gymwynas olaf i'r rhai ymadawedig o'n plith. Yn ogystal â gweinidogion, fe gafwyd hiwmanistiaid a rhai eraill oedd yn barod i weinyddu mewn angladdau neu gyfarfodydd coffa, fel y'u gelwid. Wrth gwrs, bwriad y rhai hyn oedd cynnig gwasanaeth digrefydd neu anghrefyddol i deuluoedd yn eu galar.

A wir i chi, cefais achos i fod yn bresennol mewn ambell gyfarfod a chanfod, er mawr syndod imi, ryw ddefnydd o emynau traddodiadol, a hyd yn oed ddarlleniadau o'r ysgrythur Gristnogol yng nghorff y cyfarfodydd. A phetawn i roi fy llaw ar fy nghalon, fedrwn i ddim dweud y gwahaniaeth rhwng yr oedfa honno ac oedfa Gristnogol y byddwn i a fy nghyd-weinidogion yn ei chynnal ar hyd y blynyddoedd.

Ymhen fawr o dro roedd yr arfer hwn wedi ymestyn ymhellach, ac fe welodd sawl ymgymerwr y cyfle i gynnig gwasanaeth cyflawn eu hunain, gan yrru sawl gweinidog i'r seidin yn gynamserol. Ie, cafodd sawl cennad ei hun yn cyrraedd y seidin gan y symudiad hwn. Cofiwch – mae'n bosib fod ymgymerwyr a fu'n gefn ac yn gyfaill yn gweld fod rhai fel ni yn mynd yn brin ar lawr daear a bod angen arallgyfeirio, neu feddwl tu allan i'r bocs (os wnewch chi faddau'r gair mwys). Bûm mewn amryw o'r rheiny hefyd dros y blynyddoedd ac yn gwerthfawrogi'r cynnwys a'r cyfan a wnaed ganddynt, mor urddasol ag erioed.

Ond erbyn hyn, mae'n debyg eich bod chi ddarllenwyr o Fôn yn arbennig, ac o bosib y tu hwnt i'r Fenai, wedi clywed am addasu ac adfer hen gapel yr anfarwol Christmas Evans, sef Capel Penuel, Llangefni, gan gwmni o ymgymerwyr lleol. Yn wir, llwyddwyd i droi hen adfail o adeilad, digon trist yr olwg, i'w newydd wedd. Yn ymarferol, mae yna gapel newydd sbon danlli eto yn Llangefni, ond mae'n fwy na hynny. Mae yno awditoriwm / neuadd i gynnal angladdau, ynghyd â chapel gorffwys modern a phob cyfleuster atodol, oll ar yr un safle, yn ogystal â swyddfeydd i'r cwmni.

Ac roeddwn yn gofyn i mi fy hunan: faint fydd hi cyn i'r werin ddi-gapel ddechrau gofyn am ddefnyddio'r lle ar gyfer bedyddio'u plant a hyd yn oed cynnal ambell briodas yno? Pan, ac os, digwydd hynny, fe fydd crefyddwyr a sefydliadau crefyddol traddodiadol y dref wedi colli'r frwydr yn llwyr, oni fyddant?

Bid a fo am hynny, sdim iws bod fel yr hen frenin Caniwt a cheisio dal lli datblygiad ac esblygiad arferion crefyddol bywyd yn ôl.

Rhaid canmol y freuddwyd am achub hen gapel a'i droi'n adnodd cymunedol defnyddiol ac addas ar gyfer heddiw. Mae'n un her arall i'r Eglwys Gristnogol i orfod ymdopi â hi a'i hwynebu. Ond ar yr un pryd gobeithiwn y bydd yna gydweithio hapus rhwng y sefydliad newydd a'r 'cenhadon hedd' sydd yn weddill ar yr hen ynys yma.

Dyna ni – ymlaen y mae Canaan, ffrindiau, fel y credodd yr hen Israeliaid dan arweiniad Moses gynt, a nhwtha wedi bod yn teithio anialwch Paran ers blynyddoedd. Fynnwn i ddim bod ar goll yn anialwch cynhebrwng yr eglwys, ond fynnwn i ddim bod yn ddeinosôr wedi fy nifodi gan gynnydd meteoraidd y bywyd seciwlar erbyn hyn.

Ond, ymlaen y mae pob Canaan - a throi y mae cylch bywyd o hyd.

Rwy'n hoff iawn o emyn Siôn Aled, rhif 748 yn *Caneuon Ffydd*. Fel hyn y mae'r tri phennill yn dechrau: 'Ymlaen af dros wastad a serth ... Ymlaen af â'm hyder yn Nuw .... Ymlaen af i'r frwydr mewn ffydd'.

Mae'n emyn sy'n her, sy'n galonogol ac yn gysur i bawb ohonom mewn dyddiau o drai ac ansicrwydd heddiw. Dyna ni: rhyw le 'Hatch, Match and Despatch' fu'r capel i lawer ers tro bellach. Ond rydan ni'n dechrau mynd yn brin, mae gen i ofn, ac mae'r byd yn sefyll nid nepell oddi wrthym yn disgwyl am gyfle i fanteisio ar ein gwendid a'n diffyg gweledigaeth. A'n gwaredo!

*Jim Clarke*

S4C

**Sul, 10 Hydref, am 7:30yh –**
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
Bydd Lisa'n dod i adnabod y cerddor Lisa Jên yn ei bro enedigol, Dyffryn Ogwen. Cawn glywed pam mae ei chynefin yn ardal y chwareli yn sylfaen i'w llwyddiant ac yn ysbrydoliaeth i'w chreadigrwydd a'i chaneuon.

BBC radio cymru

**Sul, 10 Hydref, 7:30yb a 4:30yp –**
***Caniadaeth y Cysegr***
Yr wythnos hon, yn y gyntaf mewn cyfres o ddwy raglen, bydd Elen Ifan yn bwrw golwg ar hanes enwau rhai o'n hemyn-donau.

**Sul, 10 Hydref – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp**
Gwasanaeth dan ofal Richard Cleaves, Pen-y-bont ar Ogwr

# Galwad i Ymestyn Allan yn Llundain

Helô, bawb, Miriam ydw i. Dwi'n bedair ar hugain oed a newydd symud i fyw i ddinas fawr Llundain i weithio yno gydag eglwysi Cymraeg y Presbyteriaid. Dwi wrth fy modd yn teithio, canu'n uchel yn y car, tsilis wedi'u piclo ac, yn fwy pwysig na dim, Iesu.

Felly, pam Llundain? Ers blynyddoedd dwi wedi trio cilio oddi wrth y ffaith fod yr Arglwydd wedi rhoi calon am waith cymunedol i mi. Yn debyg i Jona, a aeth i'r cyfeiriad arall pan oedd Duw yn ei alw i Ninefe, mi es i i Awstralia er mwyn dianc am dipyn, a mwynhau'r tywydd braf! Ond, yn ei gynllun ef, fe ddaeth y pandemig ar draws fy llwybr, a bûm yn gofalu am dri o blant annwyl i mewn ac allan o gyfnodau clo llym am flwyddyn gyfan ym Melbourne. Yn y diwedd fe fu'n rhaid dal awyren (nid pysgodyn!) yn ôl i Gymru.

Mewn cyfnod anodd a rhyfedd, fe fues i'n ffodus i gael gwaith gyda thîm gwych Cymorth Cristnogol yng Nghymru, priodi a symud i bentref bach Cwmfelin Mynach yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin, cyn clywed am y swydd yn Llundain. Allech chi ddim meddwl am ddau le mor annhebyg i'w gilydd!

'Galluogwr Ymestyn Allan' ydy teitl fy swydd newydd. Mae'n swnio'n ddiddorol, yn tydi? A dyna feddyliais i hefyd pan welais yr hysbyseb amdani yn *Cenn@d*! Felly, ar ôl mynd am dro gweddi hirfaith fe feddyliais i mi'n hun efallai mai hwn oedd y drws yr oeddwn i fod i'w agor ...

Dri mis yn ddiweddarach mi ydw i a Marcus (fy ngŵr) yn rhai o Gymry Llundain, *exciting* 'de! Rydyn ni'n byw yn Illford yng ngogledd-ddwyrain y ddinas ers mis bellach ac eisoes wedi cael cyfle i wneud llawer o gysylltiadau, ymweld â nifer o'r eglwysi ac wedi gwneud cyswllt da efo'r ysgol Gymraeg yn y ddinas.

Felly, beth nesa? Mae cyfle arbennig iawn yma yn Llundain i ymestyn allan yn enw Iesu Grist at y rhai sydd efo cysylltiadau Cymreig. Mae yna gymunedau Cymreig yma sydd eisoes wedi'u sefydlu, yn barod i groesawu a gofalu am eraill. Ond eto, mae cymaint o Gymry yma nad ydyn nhw wedi dod o hyd i'r cymunedau hynny ac nad ydyn ni yn gwybod amdanyn nhw chwaith! Ar lawr



Miriam a Marcus Watling ar ddydd eu priodas yn yr Wyddgrug yn ystod cyfnod clo Hydref 2020.

pob capel mae cyfeillgarwch a chymdeithas a chariad i'w profi. Dwi eisiau ei gwneud hi'n bosib i bobl deimlo'r cyfeillgarwch hwnnw a'r cariad sy'n dod gyda bod yn rhan o deulu mawr Duw.

Dwi'n edrych mlaen at ddefnyddio fy sgiliau drama er mwyn cynnal gweithdai i blant; fy nghefndir gyda gwaith ieuenctid a myfyrwyr er mwyn cynnig lle a chyfle iddyn nhw gael datblygu a blodeuo, ac yn y pen draw iddyn nhw fod yn arwain eu hunain. Ynghanol y cwbl rwy'n edrych ymlaen at gael dod i adnabod Cymry Llundain, y rhai sy'n rhan o fywyd eglwysig a'r rhai sydd ddim, a gweld a oes rhyw fan cyfarfod wrth inni gyd-ddyheu a chydweithio i weld eglwys ddeniadol sy'n berthnasol a gwasanaethgar yn ein cyfnod ninnau.

Mae Marcus a minnau'n edrych ymlaen at weld beth sydd gan Dduw yma ar ein cyfer ac yn gweddïo y bydd ei law ar y gwaith. Gofynnwn i chithau ein cadw ninnau a'r gwaith yn Llundain yn eich gweddïau chithau hefyd.

Cofiwch mod i yma os hoffech chi gysylltu neu fy rhoi mewn cysylltiad gyda rhywun wyddoch chi sydd yn Llundain!

*Miriam Watling*

# Cyflwyno 20 Medal Gee yn 2021

Bob blwyddyn cyflwynir medalau Thomas a Susannah Gee i ffyddloniaid yr ysgol Sul. Mewn dyddiau arferol cynhelir seremoni arbennig yn y de a'r gogledd, er mwyn eu cyflwyno i'r selogion hynny. Fel arfer, bydd cynrychiolwyr o deulu Thomas Gee yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, gyda Dorothy yn teithio o Ganada bob blwyddyn ar gyfer y cyflwyno. Fodd bynnag, eleni, nid yw cynnal cyfarfod cyhoeddus wedi bod yn bosib, ond yn hytrach cyflwynir y medalau yn lleol, mewn nifer o ddigwyddiadau llai, un ai mewn capel neu yng nghartefi'r sawl sy'n derbyn medal.

Mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn falch o gyhoeddi enwau'r rhai a fydd yn derbyn medal eleni, ac yn eu llongyfarch yn wresog iawn:

Gogledd:
Iola Margaret Roberts, Jerwsalem, Mynydd Mechell, Ynys Môn
Grace Jones, Carmel Penysarn, Ynys Môn
Olwen Owen, Carmel Penysarn, Ynys Môn
Brenda Gibson, Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam
Gwenfron Jones, Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam
Llinos Powell Jones, Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam

De:
Thomas Alan Campden, Soar, Cwmpengraig, Pen-boyr
Dewi T Ll Davies, Aberduar, Llanybydder
Janet Evans, Noddfa, Llanbedr Pont Steffan
Vera Lewis, Eglwys St Tysul, Llandysul
Daniel Keith Williams, Capel Newydd, Llanddarog
Marian Margaret Williams, Capel Newydd, Llanddarog
Alun Lloyd Voyle, Capel Newydd, Llanddarog
Margaret Beryl Voyle, Capel Newydd, Llanddarog
Alun Williams, Capel Newydd, Llanddarog
Lily May Thomas, Capel Penybont, Caerfyrddin
Bethan Eurddydd Thomas, Gellimanwydd, Rhydaman

Cyflwynir tair medal gan Gyngor yr Ysgolion Sul i unigolion a wnaeth gyfraniad arbennig i waith plant ac ieuenctid yng Nghymru, ac eleni cyflwynir medalau i'r canlynol:

Mr Nigel Davies, Caerdydd
Parch Catrin Roberts, Caerdydd
Parch Ifan Roberts, Caerdydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i bob un o'r uchod.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor yr Ysgolion Sul*

# Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

**Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwysi yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.**

## 4 Gweinidogaeth

"Ffrwyth a'i wraidd ym medd Crist" yw'r weinidogaeth Gristnogol, yn ôl Dr John Owen (*Works,* IV, 190). Y peth a olygai yw mai rhodd yr Un a fu ufudd hyd angau ac a ddyrchafwyd mewn buddugoliaeth i wisgo'r "enw yr hwn sydd goruwch pob enw" yw'r gweinidogaethau yn yr Eglwys (Philipiaid 2:5–11; Effesiaid 4:8–10). Cyfunir deubeth yn y disgrifiad hwn. Ar y naill law y mae pob swydd a gwaith yn yr Eglwys yn rhannu darostyngiad Iesu Grist. "Ar agwedd gwas" y mae pob swyddog i ymddangos. Ar y llaw arall, y mae'n gwasanaethu mewn llawenydd am ei fod yn cael gwaith gan Arglwydd na all mileindra dynion nac angau ei orchfygu. Diolch i'w fuddugoliaeth Ef, mae'r diwrnod pan blyg pob glin i Anfonedig Duw'n dechrau gwawrio.

Bu dadlau maith ymhlith Cristnogion ynglŷn â'r ffordd briodol i esbonio'r cyfeiriadau yn y Testament Newydd at wahanol swyddogion – apostolion, efengylwyr, athrawon, henuriaid, esgobion a diaconiaid. A thrist yw gorfod cydnabod mai ymarferion mewn balchder dynol yw llawer iawn o'r taeru. Mwy buddiol a pherthnasol inni'n awr na cheisio trafod y cwestiynau astrus hyn yw canolbwyntio ar natur ac amrywiaeth y doniau gwasanaethgar a rydd Crist i'w Eglwys.

Trwy'r Ysbryd Glân y mae'r Arglwydd Iesu'n arwain ei Eglwys ar ôl ei esgyniad. Fel bob amser, y mae Ef yn ei llywodraethu trwy ei gwasanaethu. Ei roddion yw awenau ei lywodraeth. Teyrnas gras yw'r rhan honno o'i deyrnas a geir mewn eglwysi. Gwelwn yn yr Actau fel yr oedd yr Ysbryd yn arwain yr Eglwys i neilltuo Barnabas a Saul i weinidogaeth arbennig (Actau 13:2) a deil hyn yn wir am bob gwir weinidogaeth. Bu arweinwyr eglwysig trwy'r canrifoedd yn awyddus dros ben i sianelu'r gwaith hwn o eiddo'r Ysbryd. Lawer tro tybiwyd mai'r unig weinidogaeth ddilys oedd honno yn cydymffurfio â rheolau'r enwad. Ond ni lwyddwyd erioed i lyffetheirio rhyddid yr Ysbryd â deddfau. Pan oedd y rheolau sefydlog yn ei gwneud yn eglur i bawb nad oedd Howel Harris yn weinidog dilys yn Eglwys Iesu Grist, fe'i defnyddiwyd yn nerthol gan yr Ysbryd Glân yn nannedd y rheolau. A hyd yn oed yn y cyfnodau tywyllaf pan oedd arweinyddion swyddogol yr Eglwys yn gysglyd ac anghyfrifol, bu gan yr Ysbryd Glân ei ffyddloniaid yn cadw'r fflam Gristnogol ynghyn.

Y peth a'n tery gyntaf am y weinidogaeth Gristnogol yn y Testament Newydd yw ei hamrywiaeth hi. Yr ydym mor gyfarwydd â chyfyngu'r teitl "gweinidog" i un swyddog yn ein heglwysi fel mai o'r braidd y byddwn yn synio hyd yn oed am ddiaconiaid a blaenoriaid fel gweinidogion. Y mae'r darlun a rydd Paul o fywyd yr Eglwys Fore mor ddiarth inni erbyn heddiw fel bod rhaid wrth ymdrech galed ar ran y dychymyg i bortreadu'r hyn a welai ef. Wrth ysgrifennu at y Corinthiaid daw'n agos iawn at ddweud fod pob aelod eglwysig yn weinidog: "Eithr chwychwi ydych gorff Crist, ac aelodau o ran." Ac o'r aelodau hyn gosododd Duw rai'n apostolion, eraill yn broffwydi, eraill yn athrawon, rhai'n gwneud gwyrthiau, eraill yn gallu iacháu, rhai'n gynorthwywyr, rhai'n llywodraethwyr a rhai'n feistri ar siarad â thafodau. A phawb yn cael eu hannog i ddeisyf y ddawn i garu, sy'n rhagori ar yr holl ddoniau eraill (1 Corinthiaid 12:27–31). Wrth ymyl yr amrywiaeth afradlon yma, y mae ein heglwysi ni'n edrych yn sobr o dlawd a marwaidd.

Nid hawdd erbyn heddiw bod yn sicr beth yn union oedd natur y doniau y mae'r Apostol yn eu disgrifio yn y geiriau hyn. Yn gynt yn yr un bennod, rhydd restr dipyn yn wahanol o ddoniau. Dechreua gydag "ymadrodd doethineb". Dyma'r ddawn i ddeall ac i esbonio'r "ddoethineb guddiedig, yr hon a ragordeiniodd Duw cyn yr oesoedd i'n gogoniant ni" (1 Corinthiaid 2:7). Ac nid yw'n ddim amgen na'r ddawn i feistroli cynnwys yr Efengyl a dysgu ei harwyddocâd i eraill. A'r ddawn nesaf yw "ymadrodd gwybodaeth". Nid yr un peth yw bod yn ddoeth â bod yn wybodus ond mae'n rhaid wrth y ddau ym mywyd cyflawn eglwysi. Rhoir i rai ddawn ffydd. Wrth gwrs, nid oes neb yn Gristion heb ffydd yng Nghrist ond mae'r Ysbryd yn cynysgaeddu'r Eglwys hefyd â phobl sy'n nodedig oherwydd mawredd a chryfder eu ffydd – er mawr galondid i eraill gwannach. Nid dibris yn yr Eglwys gyflwr iechyd yr aelodau a chan hynny ymddengys dawn iacháu yn y rhestr. Ac er mawr ddychryn i bawb modern a gwyddonol ei feddwl y mae dawn gwyrthiau i'w chael hefyd. A phroffwydoliaeth, fel y gwelsom wrth gyfeirio at Agabus. Cwbl angenrheidiol i ffyniant yr Eglwys yw'r ddawn i wahaniaethu rhwng ysbrydoedd a'i gilydd. Ac y mae i'r ddawn i siarad â thafodau ei lle'n ogystal.

Wrth ddarllen y bennod hon (1 Corinthiaid 12) clywir fel cytgan fawreddog bwyslais mynych yr Apostol mai'r un Ysbryd Glân sy'n rhoi'r holl amrywiaeth wasanaethgar hon i'r Eglwys. Yn Effesiaid 4, adn 11, ceir rhestr fer o swyddogion, sef apostolion, proffwydi, efengylwyr, ac athrawon (neu fugeiliaid – am un swydd y mae'n sôn). Ac yna ychwanega eu bod wedi eu rhoi gan Grist "I berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist" (adn 12). Ymddengys oddi wrth hyn mai diben y swyddogion a enwyd yw meithrin doniau gwasanaethgar y gynulleidfa oll fel bod pawb yn dod fwyfwy'n "weinidogion".

Ciliodd ein diddordeb yn yr Ysbryd Glân gymaint i'r cefndir fel nad ydym ar ein gwyliadwriaeth am bobl a ddoniwyd ganddo i'w wasanaethu yn y dyddiau hyn. Peidiwn ar yr un pryd â thybio fod pob dawn naturiol yn ddawn yr Ysbryd Glân. Y mae llawer un gyda doniau naturiol cyfoethog wedi sarnu eglwys am nad oedd neb wrth law â'r ddawn i "wahaniaethu'r ysbrydoedd" a dweud beth oedd yn ffrwyth balchder personol a beth oedd o Dduw. Heb ddoniau wedi'u heneinio gan yr Ysbryd Glân, nid oes "adeiladu corff Crist" yn digwydd. Yn hytrach ei ddolurio. "Nid yw creu gweinidogaethau gyda threfn allanol a seremonïau, heb y grasusau i adeiladu'r eglwys ond naddu pren â chynion, ei lyfnhau â phleini, a'i osod ar ei draed fel delw i'w addoli," meddai John Owen (*Works,* IV, 494). Yr unig ddilysrwydd mewn gweinidogaethau y mae'n werth poeni amdano yw fod yr Arglwydd Iesu'n ei arddel trwy ei Ysbryd.

Darlleniadau: 1 Corinthiaid 12; Effesiaid 4:8–11.

Llyfrau:

T. W. Manson, *The Church's Ministry,* pen. II a III; P. T. Forsyth, *The Church and the Sacraments* (arg. 1947), pen. VII; E. Schweizer, *Church Order in the New Testament* (S.C.M., 1961), pen. XXIV; H. Conzelmann, *An Outline of the Theology of the New Testament* (S.C.M., 1969), pen. XXXII; George Johnston, *The Doctrine of the Church in the New Testament* (1943), 99–101, 126–132; Daniel T. Jenkins, *The Gift of Ministry* (1947).


# ‘Agorwn Ddrysau Mawl …’

Dyma’r tri gair ddewisodd y Parch John Gwilym Jones i agor ei emyn o fawl a welir ar dudalennau *Caneuon Ffydd*. Ers misoedd bellach, sôn am gau drysau a wnawn. Y mae llaweroedd yn petruso rhwng dau feddwl i agor drysau’r capeli ac eglwysi oherwydd y pandemig yma. Yr oedd amryw wedi arfaethu agor y drysau ddechrau mis Medi wedi i’r haf a’i dyrfaoedd dawelu, ond ysywaeth, dyma don arall o’r haint yn taro’r ifanc y tro hwn ac yn creu dryswch llwyr i ffyddloniaid y capel a’r eglwys. Yn siŵr, ni fu erioed ddwthwn fel y dwthwn hwn.

Ond fe lwyddodd amryw i oresgyn yr anhawster gan gyrraedd y ffyddloniaid ar eu haelwydydd. Trwy gyfrwng technoleg fodern daeth sŵm cyn bwysiced â seiat i agor y drysau i bresenoldeb Duw. Mi holais yn betrus tybed ai cyfrwng parhaol yw hwn yntau cyfrwng dros dro? Mi ges wahoddiad i’r oedfa newydd; rhoes cyfaill i mi res o ffigyrau i mi eu bwydo i’r ffôn ar amser penodedig. Dilynais y cyfarwyddiadau’n ofalus, gwrandawais yn hir ar bob math o synau, ond dim pregeth. Yno yr oeddwn i’n eistedd yn ddefosiynol, mor unig â phelican yr anialwch a’m pen yn gam, yn rêl Methodist – pregeth heb bregethwr na chynulleidfa i wrando. Meddyliais, wedi troi fy neg a phedwar ugain, rhaid i mi gael cwmpeini i addoli – gwyn eu byd y rhai ieuanc!

Ond sôn yr oeddwn am ‘agor drysau mawl’ a fu ar gau, amryw ohonynt, ers misoedd. Mi fanteisiodd cyfaill i mi, Idwal Parry, ysgrifennydd Bethel Hen, Llanrhuddlad, ar gyfnod y clo i baentio ac ymgeleddu’r capel, a bu wrthi’n ddyfal am wythnosau. Mi sylwais fod dau ddrws ffrynt Bethel Hen yn agored led y pen gydol yr haf, fel pe baent yn gwahodd cynulleidfa. Holais fy nghyfaill am eglurhad a chefais ateb doeth a buddiol ei bod hi’n hynod o bwysig fod y drysau ar agor i awyru’r adeilad rhag tamprwydd. Mae’r tamprwydd yma yn araf bach yn siŵr o ddifetha’r adeilad ac yn beryglus o afiach i neb eistedd ynddo. Os na chawn gynulleidfa oherwydd y pandemig, agorwn y drysau i awyr iach ddod i fewn. Pwy a ŵyr na fydd rhai eto’n ‘ymofyn y ffordd tua Seion’. Fel y Salmydd hwnnw: ‘Yr wyf yn hiraethu, yn dyheu hyd at lewyg am gynteddau’r Arglwydd; y mae’r cyfan ohonof yn gweiddi’n llawen ar y Duw byw.’

*Emlyn Richards*






## Taith gerdded Carmel, Pontlliw

Dydd Sadwrn, 25 Medi, aeth grŵp o’r capel ar daith gerdded noddedig o amgylch Cwm Ivy ym mro Gŵyr. Yr oeddem yn casglu arian tuag at apêl Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr ar gyfer Affganistan. Offrymwyd gweddi ddwys gan y gweinidog, y Parch Vincent Watkins, am fendith Duw ar ddechrau’r daith ac am ei nodded i bobl Affganistan. Codwyd swm sylweddol o arian.

Roedd pawb wedi mwynhau’r daith ac wedi cael bendith yng nghwmni ei gilydd dan arweiniad yr Ysbryd Glân.

## Capel Bancyfelin

Mewn cyfnod o ofid ac ansicrwydd, testun llawenydd mawr i aelodau Capel Bancyfelin (EBC), Sir Gaerfyrddin, oedd derbyn chwech o aelodau newydd i deulu’r eglwys yn ddiweddar. Estynnwn groeso cynnes iddynt.



Yn y llun – yr aelodau newydd yng nghwmni eu gweinidog, y Parch Beti Wyn James

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Pen i waered

**Darlleniad Salm 90:12–17**

**Gweddi**
Arglwydd Iesu Grist, ceidwad a chyfryngwr byw rhwng Duw a dyn, cydnabyddwn ar unwaith ein bod yn gyson yn camddeall, yn camynganu, yn anharddu rhodd dy ras a maint dy gariad. Caniatâ i ninnau weld o'r newydd mai ti, Arglwydd, yw ein rhan. Anfon dy Ysbryd Glân fel y medrwn ogoneddu'r Tad yn ein deall, ein hewyllys a'n cerddediad ger dy fron, a gerbron y byd. Amen.

**Emyn 188 'Fy enaid, gogonedda'**

**Cyflwyniad**
Yn 1950 cynhaliwyd arbrawf gan Ivo Kohler a Theodor Erismann ym Mhrifysgol Innsbruck, Awstria. Yn yr arbrawf gwisgwyd sbectol arbennig am lygaid Ivo Kohler oedd yn troi popeth a welai ben i waered. Am beth amser roedd ei synhwyrau wedi eu drysu. Roedd y ffaith fod dŵr yn cael ei dywallt i gwpan ar 'i fyny' yn drysu synnwyr Kohler yn llwyr. Ond o fewn deng niwrnod roedd ei ymennydd wedi addasu cymaint i'r 'realiti' newydd nes bod yr hyn oedd 'ben i waered' bellach yn ymddangos yn gwbl normal.

Mae bod yn ddisgybl i Iesu yn brofiad tebyg mewn llawer ffordd. Caiff yr hyn a gredwn sy'n 'normal' ei wyrdroi'n llwyr ganddo. Ac oherwydd ein bod yn mesur popeth o'n canfyddiad cyfyng ein hunain, y canlyniad yw ein bod yn meddwl yn barhaus mai realiti geiriau Iesu sydd ben i waered!

**Darlleniad Marc 10:17–25**

**Myfyrdod 'Eilunod gwael y llawr'**
Gydag awyddfryd a gostyngeiddrwydd, rhedodd y gŵr ifanc dienw hwn at Iesu i ddysgu ganddo. 'Hoffodd' Iesu'r gŵr, ac eto, mewn ychydig o frawddegau tirion, llwyddodd Iesu i wyrdroi canfyddiadau a disgwyliadau ffals y llanc gan ei adael ef, a disgyblion Iesu, yn syn.

**Canfyddiad am hanes**
Rhannai arweinwyr crefyddol 'amser' yn ddwy ran, sef yr 'oes bresennol' a'r 'oes sy'n dod' (adn 30). Nodweddid yr oes bresennol gan ddioddefaint, trais, casineb, pechod, anghyfiawnder a hyd yn oed erledigaeth. Ac i bob golwg ymarferol, yn yr oes hon roedd y 'drwg' yn llwyddo'n ddilyffethair. Cyfeirid at yr 'oes sy'n dod' weithiau fel 'Teyrnas Dduw' pan fyddai'r Arglwydd Dduw yn arddangos ei frenhiniaeth yn derfynol. Ffrwydrad, gweithrediad newydd o Deyrnasiad Duw ar lwyfan hanes oedd yr 'oes sy'n dod'. Bryd hynny byddai cyfiawnder, heddwch, rhyddid i Israel, cosbi drwgweithredwyr (yn Iddewon a chenedl-ddynion fel ei gilydd) yn cael ei gyflawni. Byddai proffwydoliaethau'n cael eu cyflawni; byddai'r cyfiawn yn cael eu hatgyfodi i fywyd newydd ac fe fyddai bywyd yn ffyniannus. 'Bywyd tragwyddol' yw'r ffordd law-fer mae Iesu'n ei defnyddio yn yr adnodau yma i ddisgrifio breintiau deiliaid y Deyrnas ynghyd â chyflawniad eu gobeithion.

Nid rhyfedd felly fod y gŵr ifanc meddylgar hwn am wybod sut oedd Iesu'n dehongli amodau mynediad i Deyrnas Nefoedd. Ac fel pob un crefyddol o'i gwmpas, credai fod mynediad i'r Deyrnas yn dibynnu ar berfformiad rheolau crefyddol a bod 'bywyd tragwyddol' – bywyd yn Nheyrnas Dduw gyda'r Arglwydd ei hun – yn rhywbeth i'w haeddu a'i ennill.

**Athro da**
Wrth gofnodi'r cyfarchiad 'Athro da', mae Marc am ein hatgoffa o'r trafodaethau ymhlith ei gyfoedion ynghylch pwy oedd Iesu Grist (Marc 8:27 ymlaen). Gallai'r gŵr ifanc farnu fod Iesu'n 'Athro da' ond, yn wahanol i Pedr, allai o ddim mynd mor bell â chydnabod bod yr un 'Da' yr oedd yn ei bresenoldeb o Dduw. Yn ail, wrth ei dywys i gofio mai Duw ei hun, ac nid arall, oedd – ac yw – safon daioni, gallai Iesu ddechrau caniatáu i'r gŵr ifanc ddeall bod ei hunanasesiad o'i allu i gyflawni cyfraith Duw yn arwynebol ac annigonol. Atgoffa Iesu ef o'r Deg Gorchymyn – yr amodau yr oedd ef ei hun yn eu harddel. Fel y sylwn ar unwaith, cyfeirio wna Iesu at y ffaith, yn ôl ei hunanasesiad, fod y gŵr hwn wedi cadw'r cyfreithiau 'ymarferol' oll i gyd.

Ond heb gyfeirio'n uniongyrchol at y Gorchmynion 'Diwinyddol' yn y Deg Gorchymyn (Exodus 20:3–4). Dadlenna Iesu i'r gŵr ifanc mai cyfoeth oedd yr eilun yr oedd yn ei wasanaethu mewn gwirionedd (adn 21).

Er ei broffes allanol, eilun a reolai ei galon. Wrth feddwl am oes mor faterol a chyfoethog â'n hoes ni, tybed i ba raddau y mae eilun cyfoeth yn atalfa i ni rhag meddiannu rhoddion Duw a'i ganlyn ef?

**Darlleniad Marc 10:26–31 Pwy felly?**

Er bod yr Ysgrythurau Iddewig yn llym iawn eu beirniadaeth a'u condemniad o gyfoethogion oedd yn ddiystyriol o'r tlawd a'r anghenus (Amos 4:1–4), roedd hefyd gred fod cyfoeth rywsut yn arwydd o fendith neilltuol Duw (Diarhebion 10:22). Pedr oedd y cyntaf i ymgodymu ar lafar â geiriau Iesu.

Roedd Iesu newydd egluro mewn ateb i ymholiad didwyll y gŵr ifanc nad cadw allanolion rheolau crefyddol ddaw â ni i'r deyrnas. Nid ohonom ni y cyfyd gobaith a chyflawnder ein Bywyd Tragwyddol. Na, nid ohonom ni y daw Teyrnas Dduw i'n byd. Beth, felly, yw bywyd tragwyddol a phwy all ei feddiannu?

Realiti ein sefyllfa yw nad rhywbeth sydd o fewn ein galluoedd ein hunain yw ymryddhau oddi wrth ein heilunod anwylaf: 'gyda dynion y mae'n amhosibl' (adn 27). Rhodd Duw, trwy allu Duw, yw bywyd: 'Y mae pob peth yn bosibl gyda Duw.' Duw yw'r rhoddwr, y gwahoddwr a chyflawnwr yr iachâd sydd ei angen arnom. Po hiraf yr ydym yn parhau i geisio wyneb yr Arglwydd yn Iesu Grist, dyfnaf fyth fydd ein sylweddoliad mai rhodd rasol Duw a'i allu i'n denu ato yw sail ein holl obaith.

Nid yw Iesu'n addo hawddfyd i'w ddisgyblion. Yn 'yr amser hwn' ni fyddwn yn osgoi'r cyni na'r heriau sy'n gyffredin i bobl. Ond nid gwag mo'r addewidion chwaith. Ni fyddwn ar ein colled; trwy ras, down yn gyfranogion o deulu byd-eang ac etifeddiaeth na ellir ei difetha.

Yn nheyrnas nefoedd mae realiti ein disgwyliadau'n cael eu troi ben i waered. Oherwydd 'bydd llawer sy'n flaenaf yn olaf, a'r rhai olaf yn flaenaf'.

**Gweddi**
Arglwydd, mewn byd o dristwch ac o gyni, o ddioddefaint ac o drafferthion, maddau i ni ein bod mor barod i bwyso ar drysorau y mae gwyfyn a rhwd yn eu difa a lladron yn medru eu dwyn oddi wrthym. Dysga ni o ddydd i ddydd nad yn ofer y bwriwyd ein gobaith ynot ac nad yn ofer ein disgwyliad am fod yn gyfranogion o nef newydd a daear newydd lle bydd cyfiawnder yn cartrefu, drwy Iesu Grist, Amen.

**Emyn 386 'O Grist ...'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru